



Cofnodion y Senedd
Dydd Llun 22 Hydref, 6-8pm.
Prif Ystafell, Undeb Myfyrwyr Aberystwyth

Agenda	Eitem	Nodiadau / Deilliant
1. Croeso a Sylwadau Agoriadol	Croeso	Croesawodd Cadeirydd yr Undeb bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod a chyflwynodd hi ei hun a'r newidiadau a gyflwynwyd eleni.
	Ymddiheuriadau am absenoldeb	Sophie Thompson – Swyddog y Menywod James Weatherly – Cynrychiolydd Chwaraeon
	Cymeradwyo cofnodion y Cyfarfod blaenorol	Nid oedd cworwm i'r cyfarfod blaenorol, felly does dim cofnodion i'w cymeradwyo. Cariwyd ymlaen y syniadau o'r cyfarfod diwethaf.
	Materion yn codi o'r cofnodion	Dim.
2. Etholiad y Dirprwy Gadeirydd	Araith – Daniel Hardman	Traddodwyd arraith
	Araith – Chloe Wilkinson-Silk	Traddodwyd arraith
3. Adroddiad y Swyddogion	Bydd y Swyddogion yn trafod eu gweithgareddau a dyma gyfle i chi gael gwybod am yr hyn maen nhw wedi ei wneud ar eich rhan.	O hyn ymlaen, caiff adroddiadau'r Swyddogion Llawn Amser ar gyfer Materion Academaidd, Cyfleoedd i Fyfyrwyr, Llesiant a Diwylliant Cymreig eu cyflwyno yn y Parth perthnasol. Rhoddodd Llywydd yr Undeb adroddiad ar ran yr holl swyddogion llawn amser, i'w weld dan adran y Senedd ar wefan yr Undeb.
Yn ôl at 2.Etholiad y Dirprwy Gadeirydd (canlyniad)	Cyfanswm y pleidleisiau:	21
	Ymatal:	0
	cwota er mwyn ennill:	10.5
	Daniel Hardman	5
	Chloe Wilkinson-Silk	16
	Ail-agor enwebiadau	0
	Canlyniad:	Etholwyd Chloe Wilkinson-Silk
4. Cyngor - Eich Syniadau	Mae adran hon y cyfarfod yn trafod ac yn pleidleisio ar y syniadau sydd wedi cael eu cyflwyno i'r Cyngor.	
1	Boicotio Prevent (Ammaara Nalban)	
	Cwestiynau	<ul style="list-style-type: none"> • Goblygiadau byrdymor a hirdymor <ul style="list-style-type: none"> ○ Byr – arbed arian ac amser, rhoi rhyddid barn i fyfyrwyr lleiafrifol. • Goblygiadau cyfreithiol <ul style="list-style-type: none"> ○ Cadw at y gyfraith, mae llawer o undebau eisoes wedi boicotio Prevent.
	Estynnwyd gwahoddiad i siaradwyr eraill (o blaid ac yn erbyn)	Pwyntiau a godwyd o blaid ac yn erbyn y syniad: <ul style="list-style-type: none"> ○ Byddai myfyrwyr lleiafrifol sy'n gorfod ymdopi â Prevent yn ystyried hyn yn rhywbeth symbolaidd ac yn gam i'r cyfeiriad cywir gan yr Undeb.
Pleidlais	PASIWYD Y SYNIAD	
2	Wythnos Ymwybyddiaeth o Anhwylderau Bwyta (Molly-Jean Longden)	



	Cwestiynau	<ul style="list-style-type: none"> Beth fyddai'r wythnos yn ei gynnwys? <ul style="list-style-type: none"> Fel polisi i weithredu arno, bydd modd i fyfyrwyr gyflwyno syniadau.
	Pleidlais	PASIWYD Y SYNIAD
3	Swyddog Myfyrwyr Annibynnol (Sam Wilding)	
	Cwestiynau	<ul style="list-style-type: none"> Pa hyfforddiant fydden nhw'n ei gael? <ul style="list-style-type: none"> Mae 'Stand Alone', elusen genedlaethol i fyfyrwyr sydd wedi cael eu dieithrio, yn cynnig hyfforddiant. Beth fyddai rôl y swyddog? <ul style="list-style-type: none"> I'w chadarnhau, byddai hyn yn creu rolau gwirfoddol newydd sy'n debyg i rôl y swyddogion gwirfoddol eraill ond i gynrychioli myfyrwyr annibynnol.
	Estynnwyd gwahoddiad i siaradwyr eraill (o blaid ac yn erbyn)	<p>Pwyntiau a godwyd o blaid ac yn erbyn y syniad:</p> <ul style="list-style-type: none"> Dylid cynrychioli myfyrwyr ifanc sydd wedi'u dieithrio; mae cymorth yn gyfyngedig gan y cewch eich ystyried yn oedolyn, ac mae'n anodd cael hyd i gymorth gan y brifysgol.
	Pleidlais	PASIWYD Y SYNIAD
4	HIV- Profion, Profion, Profion (Steve Mason)	
	Cwestiynau	<ul style="list-style-type: none"> Beth mae'r cynllun peilot yn ei gynnwys? <ul style="list-style-type: none"> Mae 6 chlinig yn cymryd rhan; os ydych chi mewn ardal benodol ac mewn grŵp 'dan berygl' byddan nhw'n rhoi prawf i chi bob 2 fis. Dydy hyn ddim ar gael mewn ardaloedd lle na chaiff y cynllun ei gynnig nac i bobl sydd ddim yn perthyn i grŵp sydd 'dan berygl'. Sut byddwn ni fel undeb yn lobio UCM Cymru? <ul style="list-style-type: none"> Byddai'r Undeb yn gwneud datganiad o gefnogaeth, a gallai godi neu gyflwyno polisi yng Nghynadleddau UCM.
	Estynnwyd gwahoddiad i siaradwyr eraill (o blaid ac yn erbyn)	<p>Pwyntiau a godwyd o blaid ac yn erbyn y syniad:</p> <ul style="list-style-type: none"> Efallai na fydd pobl sydd â HIV yn ymwybodol bod ganddyn nhw'r afiechyd; yr un peth ag unrhyw STD arall, dylai pobl gael eu profi'n hawdd.
	Pleidlais	PASIWYD Y SYNIAD
5	Gwaith rhyw = gwaith. (Steve Mason)	
	Pleidlais	PASIWYD Y SYNIAD
6	C'mon Aberystwyth, cefnogwch y rhaglen o blaid dewis (Molly-Jean Longden)	



	Cwestiynau:	<ul style="list-style-type: none"> Beth yn hollol fydd yr Undeb yn ei wneud? <ul style="list-style-type: none"> Lobio i sicrhau polisi ledled Cymru i gysylltu gwasanaethau'r GIG fel nid oes rhaid i fyfyrwyr dalu dros £500 i derfynu beichiogrwydd. A fydd label swyddogol 'o blaid dewis' arnom ni? <ul style="list-style-type: none"> Bydd.
	Pleidlais	PASIWYD Y SYNIAD
7	Syniad brys: Cymhwyster ymgeiswyr sy'n sefyll etholiad y Swyddog Diwylliant Cymreig a Llywydd UMCA (Anna Wyn Jones)	
	Cwestiynau:	<ul style="list-style-type: none"> Eglurhad: Ni fydd angen Lefel A yn y Gymraeg ar Swyddog Diwylliant Cymreig Llywydd UMCA bellach? A ddylid agor y bleidlais i bob siaradwr Cymraeg rhugl? <ul style="list-style-type: none"> Mae pawb yng Nghymru'n gwneud TGAU Cymraeg - mae'n ei agor i bawb, ond fel cymhwyster
	Estynnwyd gwahoddiad i siaradwyr eraill (o blaid ac yn erbyn)	<p>Pwyntiau a wnaed o blaid y Syniad:</p> <ul style="list-style-type: none"> Dylai arweinydd fod yn ymwybodol o UMCA, y myfyrwyr maen nhw'n eu cynrychioli a'r hyn mae'r rôl yn ei olygu.
	Pleidlais	PASIWYD Y SYNIAD
8	Syniad brys: Amddiffyn llais a chynulliad ar y campws (Ammaara Nalban)	
	Cwestiynau	<ul style="list-style-type: none"> Sut byddech chi'n diffinio siaradwr nodedig? <ul style="list-style-type: none"> Siaradwyr uchel eu proffil Eglurhad: Amodau cyfrinachedd - a fyddai hyn yn atal rhannu manylion myfyrwyr gyda'r adran ddiogelwch? <ul style="list-style-type: none"> Byddai'n syniad i'w drafod yn ddiweddarach.
	Estynnwyd gwahoddiad i siaradwyr eraill (o blaid ac yn erbyn)	<p>Pwyntiau a wnaed y o blaid ac yn erbyn y syniad:</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae hyn er buddiannau gorau myfyrwyr, gan ei fod yn caniatáu iddynt ymgysylltu, gall digwyddiadau bygythiol effeithio ar les myfyrwyr. Caiff pob pob myfyriwr ei hysbysu gan y gallai traethodau hir ac ati elwa o wybod pwy yw'r siaradwyr. Gofynnwyd am eglurhad gan aelod o staff yn yr ystafell ynglŷn â sgysiau cynharach ynghylch y gweithredu. Eglurodd y cynigydd mai'r prif bolisi oedd y bydd y brifysgol a'r undeb yn cyhoeddi manylion digwyddiadau gyda siaradwyr hysbysadwy a rhoi gwybod i fyfyrwyr pwy sy'n dod i ymweld. Hefyd, mae'n bosib na fydd yr amserlen yr un peth â'r hyn a nodir yn y syniad, ond y byddai'r Undeb yn cadw at ysbryd y cynnig gan roi cymaint o rybudd ymlaen llaw â phosib. Gallai arwain at derfysg mawr gan y byddai protestwyr yn gwybod pryd i ddod i'r campws. O ganlyniad, byddai hyn yn effeithio ar enw da myfyrwyr Aberystwyth.



		<ul style="list-style-type: none">• Mae tryloywder llawn yn adlewyrchu'r farn fwyafrifol, ac mae'n bosib y bydd lleiafrifoedd yn cael eu darbwylo rhag cynnal digwyddiadau.• Efallai y bydd siaradwyr yn cael eu darbwylo rhag dod neu'n gohirio digwyddiadau ar fyr rybudd.• Gall cyhoeddi'r siaradwr niweidio diogelwch y siaradwr, y bobl sy'n mynychu a phobl yn gyffredinol ar y campws, gan na fyddai gennym ni ddiogelwch priodol ar gyfer miloedd o brotestwyr posib.
	Pleidlais	PASIWYD Y SYNIAD
5. Unrhyw fusnes arall	Rhoddwyd cyfle i bawb a oedd yn bresennol godi unrhyw fater na chafodd ei drafod eisoes, neu i roi gwybod i bobl am unrhyw beth a oedd yn ymwneud â'r cyfarfod a oedd yn digwydd yr wythnos honno.	
6. Cofiwch y Dyddiad!	Cyfarfod nesaf y Senedd: Cyfarfod Mawr (Cyfarfod Blynyddol Blynyddol) 3 Rhagfyr 2018; Rhaid cyflwyno syniadau erbyn 19 Tachwedd 2018.	